

DEWI EMRYS JAMES (1881-1952).

Dewi Emrys yw bardd mwyaf llwyddiannus yr Eisteddfod Genedlaethol erioed. Yn ystod ei fywyd cythryblus enillodd bedair cadair ac un goron, ac oherwydd ei lwyddiant cafodd y rh eolau eu newid fel nad oes hawl gan unrhyw berson ennill rhain fwy na dwywaith yr un. Serch hynny, pan ddaeth yr Eisteddfod Genedlaethol i Sir Benfro yn 2002 ni chafwyd dathliad o fywyd Dewi Emrys . Efallai bod ei fywyd yn rhy dymhestlog i chwant y dosbarth canol Cymraeg parchus sydd bellach yn rheoli'r wyl. Mae Seren Tan Gwmwl fodd bynnag yn talu teyrnged i'r gwr hwn ac yn cofnodi ei fywyd lliwgar.

Ganed Dewi Emrys James yn Majorca House, Ceinewydd, Ceredigion ar 28 Mai 1881. Ei dad oedd y Parch Emrys James a symudodd y teulu i Rosycaerau, Penfro wyth mlynedd yn ddiweddarach. Yno yn Sir Benfro y treuliodd Dewi flynyddoedd ei ieuentid cynnar. Gadawodd y fro honno o gwmpas Pen Caer a Carn Gowil argraff fawr ar farddoniaeth Dewi.

Er iddo grwydro llawer, yr ardaloedd yma o gwmpas Pen Caer, Pwlleri a'r Garreg Wastad - lle glaniodd y Ffrancod yn 1797 - oedd ei gartref ysbrydol ac yn ôl yr ysgrif i Jac yr hen gi defaid, yno y dymunai farw a gorwedd.

'Mynnwn innau hefyd orffwys yn y diwedd dan gysgodion hen gernydd Pen Caer, ac o gael fy newis, yng nghesail Garn Gowil yng nghanol y grug a'r eithin, y carwn gysgu fy nghwsg olaf. ac un o feini ddi-gabol y fro, a'r marchog yn sefyll uwch fy mhen. Yma y llamodd Jac a minnau yn gyfoedion di-ofid cyn cwmwl trallod, yno yr agorwyd i mi byrth fy mreuddwvion cyntaf, ac o orwedd eilwaith gerllaw fy hen gyfaill cawn yno dangnefedd llwyr.

Ni 'm brath na phig eiddigedd
Na min fy mai yn fy medd.

Er hynny cafodd ei gladdu ym mynwent Pisgah, Talgarreg, ond gofalodd rhai o'i gyfeillion fod dymmaid o bridd ei hen fro'n cael ei daflu ar ei arch cyn cau'r bedd yn 1952.

Addysgwyd Dewi yn Ysgol Pencaer ac yna yn Ysgol Ramadeg Jenkins Abergwaun ac Ysgol Uwchradd Abergwaun. Yna aeth yn brentis fel cysodydd a chyw-newyddiadurwr yn Swyddfa'r County Echo yn Abergwaun.

Yn fuan wedyn dechreuodd ei dad ddiodef o afiechyd gwael a'i cadwodd o'r pulpud am dros ddeuddeng mlynedd. Fe fu'n rhaid i'r teulu symud o Rosycaerau i fyw i Gaerfyrddin, lle cafodd Dewi waith ar y Carmarthen Journal fel newyddiadurwr a chysodydd.

Erbyn hyn roedd wedi dechrau ymddiddori mewn adrodd. Gyda throad y ganrif yr oedd Eisteddfodau mawr wedi dod yn boblogaidd yn Ne Cymru ac roedd arian da i'w ennill gan gantorion ac adroddwyr. Curodd Dewi gewri'r dydd a bu'n hynod o lwyddiannus fel adroddwr. Efallai mai ei lwyddiant fel adroddwr ysgogodd ei ffrindiau i'w annog i ddilyn llwybr ei dad i'r weinidogaeth. Gadawodd ei waith fel cysodydd a dychwelyd i'r ysgol . Aeth i'r Coleg Presbyteraidd ar ben y rhestr yn 1903.

Ar ôl cyfnod fel gweinidog yn y Dowlais derbyniodd Dewi alwad gan Eglwys Saesneg Bwcle, Sir y Fflint. Symudodd yno yn 1908. Pan oedd yn weinidog yno fe fynnodd y glowyr oedd yn gweithio dan y ddaear gael ffôn o'r pulpud yn y capel lawr i waelod y pwll fel y gallen nhw glywed Dewi'n pregethu ymhell uwch eu pennau.

Yn ystod haf 1908 priododd Dewi merch swanc o Gaerfyrddin o'r enw Cissie Jenkins. Ychydig wyddon ni am ei wraig heblaw am y ffaith nad oedd y briodas yn llwyddiant. Dywedodd perthynas i Dewi amdani 'Not the right type. Decorative with airs. Very extravagant.' Ta waeth, ganed dau fab i Cissie yn ystod cyfnod y teulu ym Mwcle, sef Alun a Gwyn. Yn llyfr Eluned Phillips am Dewi Emrys, cawn wybod fod Dewi a'r mab hynaf wedi cyfarfod yn Eisteddfod Dinbych yn 1939. Pan ysgrifennodd Miss Phillips at y mab i ofyn iddo am rai atgofion i'w cynnwys yn y llyfr dywedodd hwnnw. '...I barely remember him except my recollections of a very colourful character with exceptionally winning ways and quite a dog wit with the gals.'


Symudodd Dewi a'i deulu i Bontypridd yn 1911 lle cyrhaeddodd ei binacl fel pregethwr. Roedd galw arno i bregethu trwy Gymru benbaladr. Yn ystod y cyfnod toreithiog yma yn hanes Dewi daeth ei broblemau teuluol yn amlwg. Dywedir for Cissie yn un wastraffus, heb lawer o syniad sut i fyw ar gyflog gweinidog. Aeth y teulu i ddyled dros eu pennau a'u clustiau a rhoddwyd pwysau ar Dewi i dalu ei ddyledion neu fynd i'r Llys.

Dyma pryd y daeth yr alwad i weinidogaethu yn Finsbury Park, Llundain. Roedd hon yn swydd sylweddol gyda chyflog o £500 y flwyddyn. Er i bobl Pontypridd wneud popeth i geisio ei gadw - hyd yn oed cynnig talu ei holl ddyledion, gwrthododd Dewi. 1915, roedd Llundain yn galw. Aeth Dewi i ddyled eto yn ei ofalaeth newydd. Roedd dwy chwaer Cissie yn treulio y rhan fwyaf o'u hamser yn y Mans ac roedd yn rhaid cyflogi morwyn i weini arnynt oll.

Yna daeth tro ar fyd. Yn 1917 cefnodd Dewi ar ei eglwys, ei wraig, a'i blant ac ymunodd â'r fyddin. Pan ddaeth y Rhyfel i ben flwyddyn yn ddiweddarach ni ddychwelodd at ei hen fywyd Penderfynodd dorri cwys newydd.

Ceisiodd wneud bywoliaeth fel colofnydd ar rai o bapurau a chyfnodolion Stryd y Fflyd, gan gynnwys un a gynhyrchwyd gan yr anfarwol GK Chesterton. Ond er fod ganddo'r ddawn i lwyddo fel colofnydd nid oedd ganddo'r dyfalbarhad a pharodrwydd, na'r dymuniad efallai i weithio'n galed yn Stryd y Fflyd.

Bu'r bardd yn isel iawn ei ysbryd yn ystod y blynyddoedd canlynol ac fe ddaeth storiâu salw o gwmpas am ei ymddygiad. Fe fu o flaen Llys fwy nag unwaith am wrthod talu at gynnal ei wraig a'i blant ac yn ôl ei dystiolaeth ei hun fe fuodd mor dlawd ac anghenus fel y bu'n rhaid iddo gysgu lawer noson ar yr Embankment ymhlith trueiniaid y brifddinas. Yn y cyfnod yma ysgrifennodd Dewi erthygl yn Titbits am ei brofiadau yn cysgu o dan y sêr ar lannau'r Tafwys. Yn y cyfnod yma hefyd, ar ôl cael ei wrthod gan ei enwad a gan Gymry Llundain, gwnaeth nifer o bethau a ddigiodd bobl oedd yn arfer ei barchu. Roedd yn canu, a'i het yn ei law, tu allan i gapel Kings Cross. Mae hefyd son amdano'n canu tu allan i lawer o gapeli yng Nghymru a Lloegr. Yr oedd Dewi wedi eisiomi gan ddiffyg cardod Cristnogol ymhlith y Cymry Cymraeg y bu'n gwasanaethu. Canai o flaen capeli er mwyn creu anesmwythyd yng nghalonau pobl barchus y tybiai eu bod wedi ei fychanu a'i fradychu.



Ym mis Awst 1926 daeth llwyddiant i godi ei galon. Enillodd y goron yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe am ei gasgliad o gerddi **'Rhigymau'r Ffordd Fawr'**. Roedd wedi ennill nifer o gadeiriau pwysig cyn hyn, i gyd mwy na thebyg wedi eu gwerthu. Ond roedd 1926 yn 'jacpot'. Roedd y cyhoeddusrwydd yn aruthrol a gwnaeth Dewi'n fawr ohono. Nid yn unig y Goron a £25 a enillodd yn Abertawe. Daeth yn gydradd gyntaf hefyd yn y gystadleuaeth am 'Ddarn o Farddoniaeth mewn tafodiaith'. Darn Dewi oedd ei gerdd enwocaf sef **Pwlleri**.

Yn ystod wythnos yr Eisteddfod yn Abertawe bu'n aros mewn gwesty moethus y Machworth lle bu'n cynnal ei lys tan oriau mân bob bore. Cyn diwedd yr wythnos daeth tro trwstan arall. Oherwydd y cyhoeddusrwydd o ennill y goron daeth ei wraig i wybod ble yr oedd ac mae rhai yn dweud ei bod wedi clywed y newyddion ar y radio. Gan nad oedd Dewi wedi talu dim at ei chynnal hi na'r plant ers amser maith rhoddodd hi'r gyfraith amo. Cyhoeddwyd gwarant i'w ddwyn i'r ddalfa.

Yn ôl T Llew Jones, bachgen o Abergwaun oedd yn blismon yn Abertawe gafodd y dasg o arestio Dewi. Yn lle ei ddwyn i'r ddalfa aeth ati i hawlio'r rhan fwyaf o'r arian gwobr a enillodd Dewi yn yr Eisteddfod i ddileu'r ddyled. Doedd hyn ddim yn ddigon, felly aeth y plismon ati i gasglu'r gweddill oddi wrth ei gyfeillion eraill er mwyn i'r bardd ennill ei ryddid. Mae Eluned Phillips yn awgrymu mai dyma'r rheswm i Dewi roi ei Goron mewn 'pawn shop' yn Abertawe. Ddaeth y Goron honno byth yn ôl i'w ddwylo. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach fe'i prynwyd yn y 'pawn-shop' y diwrnod cyn iddi gau am byth gan wr o'r enw Wilfred Harrison o'r Cei Newydd.

Credai llawer y byddai buddugoliaeth 1926 yn parchuso Dewi ond aeth pethau o ddrwg i waeth. Yn 1927 cafodd ei arestio a'i ddwyn gerbron y Llys am dalu pobl â sieciau nad oedd dim yn y banc ar eu cyfer. Cafodd ei ryddhau yn amodol trwy ddweud fod arian ar y ffordd ond fe'i arestiwyd ar yr un dydd am nad oedd wedi talu ers tro ruag at gynnal ei wraig a'i blant.

Yn 1929 atgyfododd! Enillodd gadair Eisteddfod Genedlaethol Lerpwl ar destun Dafydd ap Gwilym. Flwyddyn yn ddiweddarach yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli, Dewi Emrys gipiodd y gadair am ei awdl Y Galilead. Er ei fod yn hanner can mlwydd oed roedd yn dal yn withryfelgar a chafwyd cythrwfl arall yn Eisteddfod Llanelli.

Roedd swyddogion yr Eisteddfod wedi bod yn poeni am amser fod y gyfrinach ynglyn ag enillydd y goron a'r gadair yn cael ei datgelu yn gynnar bob blwyddyn. Felly yn 1930 penderfynodd y swyddogion beidio a rhoi gwybod i'r bardd gan obeithio y byddai'n bresennol yn y seremoni ac yn gwrando ar y feirniadaeth. Roedd Dewi yn Eisteddfod Llanelli ar Ddydd Iau'r cadeirio ond nid oedd wedi cael unrhyw rybudd ymlaen llaw ei fod wedi ennill. Credai mai ymgais i'w sarhau oedd y drefn newydd o beidio a hysbysu'r bardd ei fod wedi ennill.

Aeth 13 mlynedd heibio cyn iddo lwyddo i gipio ei gadair nesaf, sef ym Mangor yn 1943, ac enillodd ei bedwaredd gadair yn Eisteddfod Pen-y-bont ar Ogwr. Cyflwynwyd rheol sy'n

gwahardd unrhyw un rhag ennill y Goron na'r Gadair fwy na dwywaith yr un. Dewi Emrys James fu'n gyfrifol am y newid oherwydd roedd yn bwgwth mynd ymlaen ac ymlaen i ennill cadeiriau cenedlaethol.

Bu Dewi Emrys yn gystadleuydd cyson mewn eisteddfodau am dros ddeugain mlynedd ac enillodd rai cadeiriau i'w gyfeillion hefyd! Yn llyfr Eluned Phillips mae na wr o Gastell Nedd yn cofio am Dewi yn 1928 mewn tafarn yn Exeter, pan oedd ef a chyfaill iddo yn canu eu ffordd o dre i dre yn Lloegr, yn dweud wrtho ei fod newydd gael pum punt oddi wrth ddyn o'r Gogledd am gyfansoddi dam o farddoniaeth iddo fu'n fuddugol mewn eisteddfod.

Pan enillodd gadair yn Eisteddfod Corwen am awdl i'r Nos nid oedd Dewi yno a chyhoeddwyd enw'r bardd buddugol fel D Jones, Eagle Inn, Llanfihangel-ar-arth, Sir Gaerfyrddm. Ond nid oedd hwnnw yno ychwaith. Roedd un o gadeiriau eisteddfodol Dewi i'w gweld yn yr Eagle Inn am flynyddoedd. Awgrymir fod Dewi wedi defnyddio enw'r tafamwr hun rhag ofn y byddai'r cyhoeddusrwydd a ddeuai yn sgil cyhoeddi ei enw ef yn fuddugol yn rhoi gwybod i'w wraig ble yr oedd, ac nid yn unig ei wraig, ond efallai rhai eraill yr oedd mewn dyled iddynt.

Er ei fod yn eisteddfota cymaint ni ddysgodd Dewi'n iawn sut i gollu'n anrhydeddus. Byddai wastad yn barod i godi twrw os enillai bardd arall y blaen arno. Doedd dim ots ganddo ddod yn bumed ond ni allai ddygymod â dod yn ail. Daeth yn ail i Cynan ym Mangor yn 1931. Tybiai fod dau o'r beirniaid, Dyfnallt a'i hen elyn WJ Gruffydd wedi penderfynu na chai Dewi'r goron. Yr oedd hefyd si ar led ar ôl i'r beirniaid atal y Gadair yn Eisteddfod Caergybi yn 1927 mai Dewi Emrys oedd y gorau a'i fod yn deilwng o'r gadair nes i'r beirniaid ddarganfod pwy oedd wedi ennill. Ar ôl iddo ennill ei bedwaredd Cadair Genedlaethol fe fu'n rhaid iddo roi'r ffidil yn y to.

Oherwydd ei fod, ers 1936 yn athro beirdd tra llwyddiannus, fe ellid tybio y byddai'r Eisteddfod Genedlaethol wedi galw arno i feiriadu. Ond roedd Dewi yn feirniad llym a phan fyddai'n gweld beiau mewn cyfansoddiad fe ddwedai hynny heb flewyn ar ei dafod. Un tro dywedodd fod llawer o feirdd yn ddim byd ond rhyw felinau gwynt y Gynghanedd oedd yn nyddu geiriau blith-draphlith heb ddeall na phoeni am eu hystyr: **'Pan oeddwn yn hogyn, gwelais siwglwr yn stwffio'i geg a damau o newyddiadur a'u tynnu allan yn bistyloedd o rubanau amryliw. Camp y rhain - beirdd y gystadleuaeth - yw llyncu geiriadur a'i ddirwyn allan yn blethwaith o gynganeddion na ddichon i neb ddirnad eu hystyr.'**

Yn 1930 ganed Dwynwen ei ferch, a'r blynyddoedd a ddilynodd yn hanes y bardd yr ysgrifennodd y fam, Dilys Cadwaladr amdanynt yn Y Cymro o dan y teitl - Taith Yr Anialwch. Ond yn 1941 daeth y cyrchu mawr gan awyrennau'r Almaen dros drefi a dinasoedd Prydain. Bu'n rhaid anfon Dwynwen i ffwrdd yn faciwi i Ogledd Cymru a pheth amser wedyn symudodd Dewi i fyw i bentref bach Talgarreg, Ceredigion. Yno treuliodd yr unarddeg mlynedd nesaf.

Erbyn dechrau'r pumdegau roedd y galwadau i bregethu neu i feiriadu wedi mynd mor brin sylweddolodd un o'i gymdogion a'i ffrindiau gorau, Tom Stephens ei fod mewn angen. Yn ystod gaeaf 1951 sylweddolodd nad oedd gan Dewi ddigon o lo yn ei fwthyn i'w gadw'n gynnes. Ar y cyd â T Llew Jones penderfynwyd fod gwasanaeth mawr Dewi fel athro beirdd yn y Babell Len yn haeddu tysteb genedlaethol. Dywedodd T Llew Jones: 'Teimlodd Tom a minnau'n siwr y byddai ei lu disgyblion yn awyddus i gyfrannu rhywbeth i ddangos eu gwerthfawrogiad o'i waith. Gyrrwyd hysbysebion i'r wythnosolion ac yn wir cafwyd ymateb

go lew. Ond rhyw goron neu chweugain oedd y cyfraniadau, oddi wrth feirdd gwlad yma a thraw, a rhyw bobl a gofiai'n annwyl am Dewi o'r dyddiau cynnar. Ni allaf gofio'n gywir faint oedd swm y dysteb i Dewi yn y diwedd ond nid oedd yn fawr. Mae'n amheus gennyf a ddaeth hi 'n uwch na rhyw ganpunt i gyd.

Cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol 1952 yn Aberystwyth ac roedd rhaid tynnu ychydig arian o'r gronfa er mwyn galluogi'r Prifardd i fynd iddi mewn siwt deidi a thipyn o bres yn ei boced. Erbyn hyn roedd Dewi'n ddrwg ei iechyd ac roedd yr Eisteddfod yn un siomedig iddo. Cafodd y dyn oedd wedi bod yn eilun tyrfaoedd yn eisteddfodau ar hyd a lled Cymru ei anwybyddu bron yn llwyr gan y dorf ddaeth ynghyd yn 1952. Cymerodd Dewi lwyfan y Babell Len i gyhoeddi bod cyflwyno tysteb i Dewi Emrys yng ngwesty'r Belle Vue yn digwydd y noson honno. Dwedodd T Llew Jones: 'Yr oedd ei ymddangosiad mor sydyn a'i einau mor annisgwyl nes codi ton o chwerthin trwy'r Babell Len. Fel yna mewn ffordd digon rhyfedd ac yn swm tipyn o chwerthin amharchus y dyrfa y gwnaeth Dewi Emrys ei exit olaf oddi ar lwyfan yr Eisteddfod. Bu farw Dewi Emrys yn ysbyty Abetystwyth ar Fedi'r 20fed 1952 a chladdwyd ef ym mynwent Pïsgah, Talgarreg. Ychydig iawn o bobl a welodd yn dda i ddod i'r angladd. Yn wir, roedd y capel yn hanner gwag'.

Dywedodd adroddiad Y Cymro: 'Ychydig berthnasau, ychydig gyfeillion ac ychydig gymdogion. A'r rhai sy'n honni hod yn gynheiliaid llên a diwylliant Cymru yn rhy brysur gyda phethau eraill i ddod ynghyd i ffarwelio ag un o'r tywysogion.'

Fe ddaeth y Parchedig Undodaidd. D Jacob Davies o hyd i gwpled mewn rhyw ddror ym mwthyn Dewi - cwpled yr oedd Dewi wedi'i adael i'w osod ar ei garreg fedd.



**Melys hun wedi aml siom
Distawrwydd wedi storom**